



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Adolygiad o Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ebrill 2017

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Gorffennaf 2017

Trosolwg

Mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd y dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat. Diffinnir cyflenwad preifat yn adran 93 (1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel cyflenwad nad yw'n cael ei ddarparu gan ymgymerwr dŵr neu un sy'n meddu ar drwydded cyflenwi dŵr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ddiwygiedig 2015/1787 (y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed) ac i sicrhau eu bod yn addas i'r diben o alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich atebion, os gwelwch yn dda, erbyn y 26^{ain} o Fehefin 2017, yn un o'r ffyrdd canlynol:

Drwy'r e-bost

water@wales.gsi.gov.uk

Drwy'r post

Cangen Ddŵr
Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, nodwch p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu a ydych yn cynrychioli barn sefydliad.

Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad mwy, eglurwch, os gwelwch yn dda, pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli ac, os yw'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Ddŵr
Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: water@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6391

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

Cyflwynwyd Rheoliadau Cyflenwi Dŵr Preifat yn gyntaf ym 1991 i ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ansawdd y dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl nad yw'n cael ei gyflenwi gan gwmnïau dŵr neu rywun / rhywrai sy'n berchen ar drwydded i gyflenwi dŵr. Mae natur wledig rhannau helaeth o Gymru yn golygu bod llawer o bobl yn dibynnu ar eu cyflenwadau dŵr preifat hwy eu hunain. Cafodd Rheoliadau 1991 eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), oedd yn trawsosod gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl (a adwaenir fel y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed).

Amcangyfrifir bod dros 87,000 o bobl yng Nghymru yn byw neu'n gweithio ar safleoedd a gyflenwir gan gyflenwad dŵr preifat. Yn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru efallai bod mwy na 10 y cant o'r boblogaeth yn defnyddio cyflenwad dŵr preifat yn hytrach na'r prif gyflenwad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2010, yn bennaf i drawsosod gofynion newydd y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

Rydym hefyd yn cymryd y cyfle i roi eglurder ynglŷn â rhai agweddau ar Reoliadau 2010.

Rydym yn cynnig cydgrynhoi Rheoliadau 2010 i reoliadau newydd, yn hytrach na chyhoeddi rheoliadau diwygiedig.

Yng Nghymru yn unig y mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) yn berthnasol. Bydd y Rheoliadau drafft yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru yn unig. Gwneir rheoliadau ar wahân yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r rheoliadau drafft wedi eu cynnwys fel Atodiad i'w ddarllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Hoffem glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn ansawdd cyflenwadau dŵr yfed preifat gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol a gweithredwyr cyflenwadau dŵr preifat.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i rhannu'n adrannau sy'n cynnwys y cynigion a restrir isod. Mae cwestiynau wedi eu cynnwys drwy gydol y ddogfen ac wedi eu crynhoi eto ar ddiwedd y ddogfen.

- Angen monitro a chymhwyso gofynion asesu risg newydd
- Newidiadau ychwanegol
 - I wella eglurder
 - Gofynion newydd
- Ffioedd
- Newidiadau posibl yn y dyfodol

Bydd yr ymateb i'r cwestiynau hyn yn gymorth wrth lunio drafft terfynol y rheoliadau yng Nghymru ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried gwelliannau posibl yn y dyfodol yn y modd y rheolir cyflenwadau dŵr yfed preifat.

Rhan 1: Trawsosod y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed:

Mae'r rheoliadau drafft yn cyflwyno gofynion newydd i awdurdodau lleol fonitro a chynnal asesiadau risg.

Mae'r newidiadau yn darparu cyfle i fonitro paramedrau dŵr yfed yn fwy aml fel bo'n briodol. Mae'r Atodiad II newydd yn cynnig y dewis i fonitro dŵr yfed mewn oddeutu 100,000 o barthau cyflenwi dŵr yn Ewrop mewn ffordd fwy hyblyg, ar yr amod bod asesiad risg yn cael ei gynnal i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei amddiffyn yn llawn. Mae'n dilyn egwyddor 'dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol' (HACCP) sy'n cael ei defnyddio eisoes mewn deddfwriaeth fwyd, a dull y cynllun diogelwch dŵr a nodir yng Nghynlluniau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ansawdd Dŵr Yfed.

Bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud yn bosibl monitro'r holl gyflenwadau dŵr preifat yn well gan ganolbwyntio mwy ar broblemau. Mae'r newidiadau yn sefydlu meini prawf i sicrhau dull cyson, er mwyn lleihau dadansoddiadau dianghenraid a chanolbwyntio ar reoli'r pethau sy'n bwysig.

Mae Atodiadau II a III i'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed yn gosod gofynion sylfaenol y rhaglenni monitro ar gyfer pob dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl a'r manylebau ar gyfer dull dadansoddi paramedrau gwahanol.

Mae Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd wrth gyflawni'r monitro archwilio (paramedrau grŵp B) a'r monitro gwirio (paramedrau grŵp A), gan ganiatáu samplu llai aml o dan rai amgylchiadau. Mae angen egluro'r amodau penodol ar gyfer monitro paramedrau mor aml ag sy'n briodol ac esbonio amrywiaeth y technegau monitro yng ngoleuni cynnydd gwyddonol.

Ers 2004, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu dull y cynllun diogelwch dŵr sy'n seiliedig ar egwyddorion asesu risg a rheoli risg, a nodwyd yn ei Ganllawiau ar gyfer Ansawdd Dŵr Yfed¹. Y Canllawiau hynny, ynghyd â safon EN 15975-2 ynghylch diogelwch cyflenwad dŵr yfed, yw'r egwyddorion a gydnabyddir yn rhyngwladol, y mae cynhyrchu, dosbarthu, monitro a dadansoddi paramedrau mewn dŵr yfed yn seiliedig arnynt. Mae Atodiad II y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed felly yn cyd-fynd â diweddariadau mwyaf diweddar yr egwyddorion hynny, a bydd angen i'n rheoliadau ninnau adlewyrchu'r aliniad hwn.

Mae'r gofynion perthnasol yn y rheoliadau drafft wedi eu nodi isod:

Rheoliad 6: Bydd Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad risg sy'n bodloni EN15975 ynghylch canllawiau ar gyfer rheoli risg o gwmpas diogelwch cyflenwad dŵr yfed. Bydd offeryn asesu risg yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yn bodloni'r meini prawf uchod.

Rheoliad 11: Mae Rheoliad 11 yn nodi'r gofynion samplu a dadansoddi ar gyfer awdurdod lleol. Mae'r newidiadau i'r Gyfarwyddeb bellach yn ei gwneud yn ofynnol cymryd samplau o gopr, plwm a nicel fel samplau heb eu glanhau.

Atodlen 2: Mae'r tablau sy'n rhoi manylion y gofynion monitro ar gyfer yr awdurdodau lleol wedi eu diweddarau i fodloni gofynion newydd Atodiad II y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Mae'r Atodlen hefyd yn rhoi manylion y gofynion ar gyfer amrywio amllder samplu neu baramedr cyflenwad preifat.

¹ http://www.who.int/water_sanitation_health/publications/2011/dwg_guidelines/en/

Atodlen 4: Mae Atodlen 4 yn nodi gofynion diwygiedig Atodiad III y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed mewn perthynas â samplu a dadansoddi. Mae'r newidiadau yn cynnwys amod ar y gofyniad i ddadansoddi a chofnodi sampl drwy ddefnyddio system sy'n bodloni gofynion EN ISO/IEC 17023.

Gofynion ar gyfer dulliau dadansoddi paramedrau arogl a blas.

Gofynion ar gyfer dulliau dadansoddi paramedrau microbiolegol.

C1. Oes yna unrhyw agweddau ar y gofynion newydd y mae arnoch eisiau mwy o eglurder arnynt?

Rhan 2: Newidiadau Ychwanegol

Hoffem hefyd gymryd y cyfle hwn i roi mwy o eglurder ynghylch y geiriad o fewn y rheoliadau. Mae'r prif newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Rheoliad 3

Yn Rheoliadau 2010 mae yna eithriad penodol ar gyfer golchi cnwd, lle nad yw'r dŵr yn effeithio ar addasrwydd y cnwd, nac unrhyw fwyd neu ddiod sy'n tarddu o'r cnwd, ar gyfer ei fwyta neu ei yfed gan bobl (rheoliad 3 (c) o Reoliadau 2010).

Yn Rheoliad 3 o'r rheoliadau drafft, rydym yn cynnig ehangu'r eithriad hwn fel y bydd cyflenwadau preifat o ddŵr a ddefnyddir wrth gynhyrchu unrhyw fwyd yn cael eu heithrio allan o gwmpas y rheoliadau pan fydd yr awdurdod cymwys² yn fodlon na all y dŵr effeithio ar iachusrwydd bwyd yn ei ffurf orffenedig.

C2: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas ag ehangu'r eithriad presennol yn Rheoliad 3 ar gyfer golchi cnwd fel ei fod yn cynnwys dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw broses gynhyrchu bwyd, cyn belled â bod dim effaith ar iachusrwydd y bwyd?

Rheoliad 6: Mae gofyniad yn Rheoliad 6 ar hyn o bryd i gynnal asesiad risg o fewn 5 mlynedd i'r amser y daw y rheoliadau i rym a phob 5 mlynedd wedi hynny. Caiff y geiriad ei ddiweddarau gan fod y dyddiad dod i rym bellach wedi mynd heibio.

Bydd hefyd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu crynodeb o ganlyniadau'r asesiad hwnnw o fewn 12 mis i Weinidogion Cymru.

Mae Rheoliad 6 hefyd yn cyfeirio at gyflenwadau masnachol; caiff y geiriad hwn ei newid i fod yn gyson â'r geiriad yn y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

Rheoliad 8 a 9: Caiff y geiriad ei newid fel yn Rheoliad 6 i fod yn gyson â'r geiriad yn y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

O ran Rheoliad 9, mae'r cyflenwadau dŵr yr ystyrir eu bod o fewn y cwmpas yn cynnwys: gwestai a thai gwely a brecwast, tai gwyliau a safleoedd carafanau. Caiff tenantiaethau domestig eu cynnwys mewn newid i Reoliad 10.

² Asiantaeth Safonau Bwyd

Rheoliad 10: fel yn rheoliadau 6 i 9 caiff y geiriad ei newid i fod yn gyson â'r geiriad yn y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

Bydd rheoliad 10 hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i gynnal asesiadau risg ar eiddo gyda thenantiaeth ddomestig. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl asesu adeiladau, a ddefnyddir i dibenion gosod, yn unol â'r codau a'r arferion sydd yn eu lle drwy ddeddfwriaeth tai Cymru. Bydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed wedyn yn darparu canllawiau ynghylch pa gyflenwadau y mae hyn yn eu cynnwys. Er enghraifft, bydd tenantiaethau amaethyddol ac eiddo a ddarperir fel rhan o'r swydd wedi eu heithrio.

Rheoliad 18: Y weithdrefn yn dilyn ymchwiliad. Mae'r rheoliadau wedi cael eu haileirio er mwyn esbonio pa gamau y dylid eu cymryd os yw'r achos pam mae cyflenwad dŵr wedi mynd yn afiachus yn ganlyniad y system ddsbarthu o fewn safle domestig a'r camau os yw'r achos yn ganlyniad y system ddsbarthu o fewn adeilad cyhoeddus.

O ran safleoedd domestig, ni all yr awdurdod lleol wneud dim ond hysbysu'r preswylwyr am y broblem a chynnig cyngor. Fodd bynnag, ni all orfodi amnewid pibellau mewnol na chamau eraill.

O ran adeilad cyhoeddus, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod camau adferol priodol yn cael eu cymryd, yn ogystal â hysbysu'r preswylwyr a darparu cyngor.

Mae'r geiriad yn Rheoliadau 2010 wedi achosi dryswch ac mae angen mwy o eglurder. Felly, newidiwyd y geiriad o 'pibellau mewn annedd sengl' i 'dosbarthiad o fewn safle domestig' er mwyn osgoi cymysgwch gydag agweddau eraill ar y rheoliadau lle y cyfeirir at 'un annedd ddomestig'.

C3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y mathau o denantiaethau yr ydym yn bwriadu eu cau allan drwy ganllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed?

Gofynion Newydd

Yn ychwanegol at y newidiadau a nodir uchod, rydym yn cynnig cynnwys gofynion newydd yn y rheoliadau fel a ganlyn:

Rheoliad 15 newydd: Cyflenwadau Newydd

Mae'r rheoliad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad risg a monitro unrhyw gyflenwad dŵr preifat newydd neu unrhyw gyflenwad nad yw wedi cael ei ddefnyddio am gyfnod o 12 mis, y mae'n dod yn ymwybodol ohono, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid peidio ag adfer defnydd cyflenwad o'r fath hyd nes y bydd yr awdurdod lleol yn fodlon nad yw'n risg i iechyd.

Rydym yn nodi bod modd i ddefnydd rhai cyflenwadau gael ei adfer heb yn wybod i'r Awdurdodau Lleol. Mae gan Awdurdodau Lleol eisoes y grym i gyflwyno hysbysiad rheoliad 18, yn gwahardd cyflenwi a'r grym i gyhoeddi hysbysiadau gwelliant, y byddem yn disgwyl i'r Awdurdodau Lleol eu defnyddio.

C4: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y gofyniad i gynnal asesiad risg ar gyfer cyflenwadau newydd?

Rhan 3: Newidiadau posibl i'r Rheoliadau

Atodlen 6: Ffioedd

Mae cynaladwyedd rhestr y ffioedd wedi cael ei grybwyll nifer o weithiau mewn adolygiadau diweddar, gydag awdurdodau lleol yn mynegi pryderon nad yw'r ffioedd yn ddigon i dalu am yr holl waith y mae gofyn iddynt ei wneud. Yn dilyn y pryderon hyn, mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi cynnal rhywfaint o ymchwil i'w hystyried gan swyddogion polisi wrth adolygu'r rheoliadau.

Wrth addasu rhestr y ffioedd rydym ar y naill law yn cadw mewn golwg gostau'r rheoliadau hyn i berchnogion cyflenwadau dŵr preifat sydd yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, a'r angen ar y llaw arall i awdurdodau lleol fedru talu costau'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau angenrheidiol.

Y rhestr ffioedd fel ag y mae ar hyn o bryd:

Gwasanaeth		Ffi
Asesiad risg (pob asesiad)		£500
Samplu (pob ymweliad)		£100
Ymchwiliad (pob ymchwiliad)		£100
Rhoi awdurdodiad (pob awdurdodiad)		£100
Dadansoddi sampl		
	Cymryd o dan Reoliad 10	£25
	Cymryd yn ystod gwaith monitro gwirio	£100
	Cymryd yn ystod gwaith monitro archwilio	£500

Yn 2016, yn dilyn ymarferiad casglu tystiolaeth, cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed ymchwil ynghylch y strwythur ffioedd ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat. Yn dilyn arolygon e-bost, cysylltu â labordai ac ymgynghoriad drwy ap deialog, awgrymir y strwythur canlynol i newid y rhestr ffioedd:

Y Gwelliannau Arfaethedig i'r Rhestr Ffioedd

Gwasanaeth		Ffi
Asesiad risg (pob asesiad)		
	Uchafswm Rheoliad 10	£300
	Uchafswm Rheoliad 9	£700
Samplu (pob ymweliad)		£100
Ymchwiliad (pob ymchwiliad)		£250
Rhoi awdurdodiad (pob awdurdodiad)		£100
Dadansoddi sampl		
	Cymryd o dan Reoliad 10	£25
	Cymryd yn ystod gwaith monitro gwirio	£110
	Cymryd yn ystod gwaith monitro archwilio	£600

Bydd costau'r asesiad risg yn cwmpasu adolygiad, amser teithio a chostau i ac o'r safle. Mae uchafswm y costau ar gyfer Rheoliadau 9 a 10 wedi'u gosod ar wahân yn dilyn sylwadau ar gymhlethdod cyflenwadau Rheoliad 9.

Mae samplu yn seiliedig ar yr amcangyfrif o 2-3 awr o amser swyddog.

Barnwyd bod y ffi flaenorol o £100 ar gyfer ymchwiliadau yn annigonol i gynnal ymchwiliad gan nad oedd yn talu ond am 2-3 awr o amser swyddog. Y cynnig yw ei chynyddu i adlewyrchu'r amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cynnal ymchwiliad.

Cadwyd Cymryd o dan Reoliad 10 yr un peth ac mae'n annhebygol o gael ei defnyddio yn y dyfodol

Mae dadansoddi sampl Rheoliad 10 yn cwmpasu'r ffi uchaf ar gyfer y gyfres statudol o 5 paramedr a dim paramedrau ychwanegol a nodwyd yn ystod yr asesiad risg.

Mae ffi monitro gwirio wedi ei chynyddu i adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol o 8% mewn costau labordy ers 2010.

Dylai'r gost uwch yma ymdrin â'r rhan fwyaf o amgylchiadau gan gynnwys achrediad samplu dros 3 blynedd, chwyddiant a sylweddau ymbelydrol lle y nodir risg.

C5: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Ffioedd?

Dewis arall a grybwyllwyd yw dileu'r uchafswm.

Mae awdurdodau lleol yn rhwym o adennill "costau rhesymol a achoswyd". Mae cael gwared ar yr uchafswm yn darparu ar gyfer cynnydd yn y costau yn y dyfodol ac yn caniatáu canolbwyntio'n briodol ar gynnal ymweliadau safle mwy manwl gyda'r gobaith o adennill costau realistig.

C6: A ydych yn teimlo y dylid dileu'r uchafswm ar gyfer ffioedd yn hytrach na newid y ffioedd?

C7: Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda hyn fel dull posibl?

Rhan 4: Newidiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol a sylwadau ar y materion ychwanegol a godwyd yn ystod trafodaethau cyn ymgyngori.

Amcangyfrifir bod dros 87,000 o bobl yng Nghymru yn byw neu'n gweithio ar safleoedd a gyflenwir o gyflenwad dŵr preifat. Mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru mae'n bosibl bod mwy na 10 y cant o'r boblogaeth yn defnyddio cyflenwad dŵr preifat yn hytrach na'r prif gyflenwad.

Codwyd cryn bryder dros y blynyddoedd ynghylch lefel uchel y cyflenwadau domestig sengl yng Nghymru a'r diffyg gwybodaeth am y cyflenwadau hyn. Yn wahanol i'r prif gyflenwad dŵr nid oes sicrwydd bod y dŵr a ddefnyddir mewn cyflenwad dŵr preifat yn iachus nac y bydd yn parhau'n ddigonol i fodloni anghenion y defnyddwyr yn y dyfodol.

Er nad oes rhaid i Awdurdodau Lleol asesu risg na monitro anheddau domestig unigol sydd ar Gyflenwad Dŵr Preifat, mae'n rhaid iddynt gadw cofnod o'u lleoliad. Mae rhai awdurdodau wedi mynegi pryder ynghylch anawsterau i gael gafael ar y wybodaeth hon. Mae diffyg gwybodaeth ynghylch lleoliad cyflenwadau a nifer y safleoedd sy'n dibynnu ar gyflenwad dŵr preifat yn arwain at nifer o faterion polisi a phryderon i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys:

- Ansawdd y cyflenwadau sy'n cael eu defnyddio – dengys y data, y mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi ei weld ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru, gyfradd lawer uwch o fethiant yn erbyn dangosyddion ansawdd nag sy'n wir am gyflenwadau dŵr cysylltiedig â'r prif gyflenwad. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad oes gan nifer o bobl sy'n defnyddio cyflenwadau preifat yng Nghymru fynediad at ddŵr yfed diogel.
- Effeithiau posibl cyflenwad, sy'n cael ei gadw'n wael, ar iechyd. Mae dŵr yfed anniogel yn achosi nifer o gymhlethdodau iechyd i'r rheiny sy'n defnyddio'r cyflenwadau. Mae hyn yn ei dro yn medru cynyddu'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd sy'n gorfod ymdrin â chostau gofal iechyd sy'n gysylltiedig ag yfed dŵr o ansawdd gwael. Byddai canfod cyflenwadau yn galluogi awdurdodau i dargedu defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat yn gywir er mwyn eu haddysgu a'u hysbysu am risgiau iechyd amrywiol cyflenwad sy'n cael ei reoli'n wael.
- Gwybodaeth ynghylch trin cyflenwadau dŵr preifat. Medru targedu'r bobl berthnasol gyda gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i gadw cyflenwad dŵr preifat yn iachus ac awgrymu mesurau sut i ddiogelu cyflenwad.
- Materion yn ymwneud â diogelwch cyflenwad dŵr preifat. Mae cyfrifoldeb ar berchennog cyflenwad dŵr i sicrhau bod ganddo gynlluniau wrth gefn pe bai ei gyflenwad yn methu. Gallai sychder, llifogydd neu ddigwyddiad llygru atal cyflenwad dros gyfnod o amser neu am gyfnod amhenodol, a allai fod yn achos cost annisgwyl i berchennog y cyflenwad. Mae asesiad risg y newid yn yr hinsawdd 2017 wedi nodi'r posibilrwydd o darfiadau ar gyflenwadau dŵr fel risg i'w hystyried. Byddai deall maint y risgiau hyn yn fanylach yn galluogi'r Llywodraeth i ystyried a oes angen cynlluniau cydnherthedd pellach, gan gynnwys ymyrraeth bosibl gan y Llywodraeth.
- Digwyddiadau halogi. Os ceir digwyddiad llygru, gall fod yn anodd i awdurdodau lleol adnabod y bobl hynny (ar gyflenwad dŵr preifat, lle nad oes cofnod o'r cyflenwad) a all fod mewn perygl o yfed dŵr halogedig, ac efallai y bydd rhaid iddynt aros nes i ddefnyddwyr cyflenwad gysylltu â hwy ynglŷn â blas neu arogl. Gall hyn olygu nad yw maint llawn digwyddiad llygru wedi ei amgyffred yn glir bob amser oherwydd diffyg data.

- Pwysau cynllunio ar y cyflenwadau sydd eisoes yn bodoli. Gan nad oes asesiad risg yn cael ei gynnal gan yr awdurdodau lleol ar gyflenwadau domestig sengl fel rheol, ni fydd yr awdurdodau yn gwybod faint o bobl sy'n defnyddio ffynhonnell gyflenwi benodol. Er bod yr awdurdodau lleol yn gorfod cadw cofnodion o gyflenwadau, nid yw eu cofnodion ond cystal â'r wybodaeth a roddir iddynt yn rhagweithiol. Gall hyn achosi problemau yn y tymor hir gyda'r ffynonellau hyn wedyn yn cael eu rhwymo mewn ceisiadau cynllunio, yn seiliedig ar amcangyfrifon bras o'u defnydd, sy'n amcangyfrif yn rhy isel y gwir faich ar y cyflenwad, a hynny'n peri iddo redeg yn sych.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gan nifer o wledydd yn Ewrop gronfeydd data lle y gellir cofrestru Cyflenwadau Dŵr Preifat. Mae'r cronfeydd data hyn wedyn yn gymorth i nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat, drwy gysylltu ansawdd dŵr ag achosion o glefydau sy'n gysylltiedig â chyflenwadau dŵr halogedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dewisiadau ynghylch sefydlu cynllun cofrestru, tebyg i'r cynllun cofrestru a chronfa ddata tanciau septig, i gofnodi pob cyflenwad dŵr preifat yng Nghymru er mwyn bod o gymorth i ddatblygu polisi ynglŷn â'r materion a nodwyd uchod.

C8: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r posibilrwydd o edrych ar ddewisiadau i nodi a chofnodi'r holl ffynonellau cyflenwi dŵr preifat yng Nghymru?

C9: Ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol edrych ar ei gwneud yn ofynnol cofrestru pob cyflenwad dŵr preifat yng Nghymru naill ai o fewn y ddeddfwriaeth hon neu drwy ddeddfwriaeth newydd os oes angen?

C10a: A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cronfa ddata ledled Cymru i gadw gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat?

C10b: Pe bai cronfa ddata yn cael ei datblygu i gadw gwybodaeth am yr holl gyflenwadau dŵr preifat ledled Cymru, pwy ydych chi'n teimlo fyddai orau i fod yn gyfrifol amdani'n gyffredinol?

Yn ogystal â diffyg y wybodaeth a gedwir am gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru, codwyd pryderon hefyd ynghylch drilio tyllau turio am gyflenwadau newydd. Lle mae tyllau turio ar gyfer cyflenwi dŵr yn cael eu drilio, maent yn aml yn dod yn gyflenwad dŵr preifat.

Mae eisoes yn ofynnol i ddrilwyr hysbysu Arolwg Daearegol Prydain (BGS) pan fydd y twll turio yn fwy na 15 metr ar gyfer cyflenwi dŵr.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen ei gwneud yn ofynnol i ddrilwyr a/neu eu cwsmeriaid hysbysu awdurdodau lleol ynghylch drilio twll turio ac a ddylid penderfynu ar y dyfnder lleiaf.

Efallai y byddai hysbysiad ynghylch tyllau turio yn gymorth i ddod o hyd i gyflenwadau posibl cyn iddynt gael eu defnyddio, gan ganiatáu cynnal asesiadau risg mewn modd amserol. Y fantais fyddai sicrhau'r bartneriaeth angenrheidiol rhwng yr awdurdod lleol a'r cwsmer pan fydd yna dwll turio newydd sy'n dod yn gyflenwad dŵr preifat newydd.

C11: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch cynigion i edrych ar ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr newydd a masnachol ddefnyddio gosodwyr triniaeth a drilwyr tyllau turio cofrestredig?

C12: Byddem yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer Rheoliadau drafft Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017. Rhowch bennawd yn ymwneud â'r cwestiynau

**Ffurflen Ymateb
i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Crynodeb o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

C1: Oes yna unrhyw agweddau ar y gofynion newydd y mae arnoch eisiau mwy o eglurder arnynt?

C2: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas ag ehangu'r eithriad presennol yn Rheoliad 3 ar gyfer golchi cnwd fel ei fod yn cynnwys dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw broses gynhyrchu bwyd, cyn belled â bod dim effaith ar iachusrwydd y bwyd?

C3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y mathau o denantiaethau yr ydym yn bwriadu eu cau allan drwy ganllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed?

C4: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y gofyniad i gynnal asesiad risg ar gyfer cyflenwadau newydd?

C5: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Ffioedd?

C6: A ydych yn teimlo y dylid dileu'r uchafswm ar gyfer ffioedd yn hytrach na newid y ffioedd?

C7: Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda hyn fel dull posibl?

C8: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r posibilrwydd o archwilio dewisiadau ynghylch nodi a chofnodi yr holl ffynonellau cyflenwi dŵr preifat yng Nghymru?

C9: Ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol edrych ar ei gwneud yn ofynnol cofrestru pob cyflenwad dŵr preifat yng Nghymru naill ai o fewn y ddeddfwriaeth hon neu drwy ddeddfwriaeth newydd os oes angen?

C10a: A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cronfa ddata ledled Cymru i gadw gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat?

C10b: Pe bai cronfa ddata yn cael ei datblygu i gadw gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat ledled Cymru, pwy ydych chi'n teimlo fyddai orau i fod yn gyfrifol amdani'n gyffredinol?

C11: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch cynigion i edrych ar ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr masnachol a newydd ddefnyddio gosodwyr triniaeth a drilwyr tyllau turio cofrestredig?

C12: Byddem yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer Rheoliadau drafft Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017.

C 13: Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau a gâi Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) ar y Gymraeg, yn benodol ar

- i) Y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) Sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 14: Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut yr ydych chi'n meddwl y gellid llunio'r Rheoliadau arfaethedig neu eu newid er mwyn cael

- i) Effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) Dim effeithiau anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy, defnyddiwch y lle hwn i adrodd amdanynt, os gwelwch yn dda:

Ysgrifennwch yma:

Mae atebion i'r ymgynghoriad yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yn y fan yma, os gwelwch yn dda: